Gwiriadau DBS a Covid-19

(Diweddariadau wedi'u cyfuno: Mawrth, Mai, Awst 2020)

Yn ystod yr amser anodd, llawn straen sydd ohoni, fe ddylem gymryd yr holl gamau posibl i sicrhau diogelwch y bobl sy'n cydweithio â ni. Lle bynnag y bo'n bosibl, os ydych yn recriwtio staff a gwirfoddolwyr, dylent orfod ymgeisio am lefel gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y mae eu rôl yn gymwys ar ei gyfer, neu rannu eu tystysgrif gyfredol, yn ôl yr arfer.

Wrth i'n gweithlu addasu i ofynion yr ymateb i'r coronafeirws, gallai fod galw sylweddol ar wasanaeth prosesu'r DBS. Darperir y canllaw hwn i'ch cynorthwyo i gael pobl ar waith yn ddi-oed ond yn ddiogel.

Dylai POB aelod o staff a gwirfoddolwyr gael eu diweddaru o'r canllawiau ar y coronafeirws er mwyn cadw'u hunain yn ddiogel ac yn iach, ac i atal trosglwyddo'r haint i rywun arall:
icc.gig.cymru/pynciau/coronafeirws/

phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19

Wrth i ni gadw pellter cymdeithasol, efallai nad oes nifer o rolau yn gofyn am lawer o gyswllt rhwng staff/ gwirfoddolwyr a'r buddiolwyr. Gyda'r mwyafrif llethol o rolau o'r fath (ee dosbarthwr nwyddau), y Gwiriad Sylfaenol yw'r unig fesur addas ac felly caiff ei argymell yn gryf.

CYNNWYS

1. Gwiriadau Sylfaenol
2. Tystysgrifau DBS sy'n bodoli eisoes a chludadwyedd
3. Gwiriadau newydd
4. Gwiriadau Llwybr Carlam am Ddim
5. Gwiriadau DBS Oedolion yn Gyntaf
6. Ar gyfer pob rôl sy'n gofyn am wiriad DBS
7. Dolenni Defnyddiol

1. GWIRIADAU SYLFAENOL

Mae'r gwiriad hwn yn dangos euogfarnau **heb eu disbyddu** yn unig - rhai y mae'r unigolyn yn parhau o dan gosb gyfreithiol ar eu cyfer, gan gynnwys y cyfnod adsefydlu am y drosedd - a rhybuddion amodol (i bob pwrpas, ataliad dros dro o erlyniad sydd ag amodau penodol ynghlwm ag ef).

Mae'n bosibl i'r ymgeisydd unigol gyflwyno'u cais Sylfaenol ar-lein am gost o £23 gwiriad sylfaenol DBS ond ni cheir gostyngiad ar gyfer gwirfoddolwyr. Mae hyn hefyd yn darparu modd i unigolion wirio beth fyddai eu gwiriad Sylfaenol yn ei ddatgelu (ac fe ddylai wneud hynny).

Gellid gofyn i unrhyw un sy'n cael ei recriwtio i weithio neu i wirfoddoli gwblhau gwiriad Sylfaenol a gellir ei gwblhau trwy ddefnyddio ffurflen hunan-ddatgelu (gweler y blwch isod).

Gellir e-bostio'r ffurflen hunanddatgelu at yr unigolyn a ddylai ei llenwi, ei hargraffu, ei llofnodi, ei sganio a'i dychwelyd fel atodiad e-bost. Mewn achos lle nad yw'n bosibl i ymgeisydd ddilyn y camau hyn, gallai fersiwn heb ei llofnodi wedi'i hanfon ar e-bost fod yn ddigonol hyd nes y derbynnir copi wedi'i llofnodi drwy'r post.

Nodyn atgoffa:

- **Nid yw** gwiriadau Sylfaenol yn addas ar gyfer rolau sy'n gofyn am **gyswllt wyneb yn wyneb** â'r rheiny sy'n agored i niwed

- Bydd rolau lle disgwylir cyswllt wyneb yn wyneb mynych â phlentyn neu oedolyn agored i niwed, lle mae perthynas o ymddiriedaeth yn debygol o ddatblygu, yn gymwys ar gyfer gwiriadau DBS manylach, fel mater o arfer dda a argymhellir gan CGGC a'r Comisiwn Elusennau
- Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i rolau a ddelir gan staff neu wirfoddolwyr sy'n darparu 'gweithgaredd a reoleiddir DBS' i gael eu gwirio yn erbyn y rhestr(au) gwahardd trwy wiriad DBS manylach

AWGRYM O EIRIAD AR GYFER FFURFLEN DDATGELU (gwiriad sylfaenol)

Mae 'Mudiad (enw)' yn darparu'r ffurflen hunanddatgelu hon at bwrpas recriwtio mwy diogel. Yn gyfreithiol, gallwn ond gofyn i chi am eich euogfarnau **sydd heb eu disbyddu** a rhybuddion amodol (*gweler mwy o wybodaeth isod). Peidiwch â rhannu unrhyw wybodaeth gyda ni nad oes gennym yr hawl i'w wybod. Os ydych yn ansicr ynglŷn â'ch amgylchiadau, gallwch wirio hyn ar-lein am gost o £23 gwiriad sylfaenol DBS.

Rhowch fanylion eich euogfarnau heb eu disbyddu a rhybuddion amodol isod, os gwelwch yn dda. Os nad oes gennych unrhyw wybodaeth i'w datgelu, nodwch D/B yn y gwagle isod.

Arwyddwch a dyddiwch y datganiad hwn, os gwelwch yn dda.

Enw (llythrennau breision)

Llofnod

Dyddiad

Gallai datganiad ffug arwain at gamau disgyblu a diswyddiad posibl.

*Diffiniadau:

Euogfarnau heb eu disbyddu yw'r rheiny y mae'r unigolyn yn parhau o dan gosb gyfreithiol au cyfer, gan gynnwys y cyfnod adsefydlu am y drosedd.

Mae rhybuddion amodol yn ataliad dros dro o erlid ag amodau penodol ynghlwm ag ef a allai arwain at erlyniad yn ddiweddarach os na wireddir yr amodau.

2. TYSTYSGRIFAU DBS SY'N BODOLI EISOES

Os yw'ch aelod o staff neu wirfoddolwr newydd eisoes wedi cael tystysgrif DBS, sicrhewch eich bod yn 'gweld' y dystysgrif ar bob cyfrif.

Mae canllawiau newydd gan y DBS yn eich galluogi i'w gweld gan ddefnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda, ee skype; Canllawiau covid-19 DBS i newidiadau gwirio ID.

- Gofynnwch am gael gweld y dystysgrif yn agos er mwyn gwirio lefel y gwiriad y gofynnwyd amdano a'r gweithlu y gwiriwyd yr unigolyn i weithio gydag ef (oedolion, plant neu'r ddau)
- Gofynnwch am gael gweld y ddwy ochr a phob tudalen er mwyn gweld unrhyw gynnwys a ddarparwyd ar hanes troseddol a gwybodaeth gan yr heddlu
- Cymerwch lun o'r sgrîn fel tystiolaeth i chi weld y dystysgrif, os yn bosibl
- Cofnodwch ddyddiad awdurdodi'r dystysgrif (yr unig ddyddiad ar dystysgrif DBS), lefel y gwiriad a'r gweithlu
- Cofnodwch unrhyw gynnwys a gwnewch asesiad risg yn erbyn y rôl yr ymgymerir â hi, yn ôl yr arfer

Gwiriadau DBS cludadwy

Ceir dulliau ffurfiol ac anffurfiol o 'gludo' gwiriad DBS, ond dim ond o fewn cyfyngiadau'r dystysgrif, er mwyn gwneud gwaith sy'n gofyn am lefel gwiriad cyfatebol ac o fewn yr un gweithlu yn unig.

1) Cludo anffurfiol: Gall eich mudiad ddewis (ar eich menter eich hun) gosod unigolion mewn rolau sy'n rhan o'r un gweithlu (oedolion neu blant) ac sy'n gofyn am wiriad ar yr un lefel (sylfaenol/manylach yn unig/manylach â rhestr wahardd) os ydyn nhw'n symud yn uniongyrchol o un rôl i un arall (heb fylchau amser) heb unrhyw achos pryder yn y rôl flaenorol, neu os yw'r gwiriad yn llai na 3 mis oed ond bod seibiant wedi bod yn eu gyrfa.
2) Cludo ffurfiol: Defnyddiwch y Gwasanaeth Diweddaru i gael gwiriad statws uniongyrchol yn rhad ac am ddim, gwasanaeth

diweddariad DBS, dim ond os yw'r ymgeisydd eisoes wedi tanysgrifio a bod y rôl newydd o fewn cyfyngiadau eu tystysgrif. Rhaid i chi barhau i gynnal gwiriadau gweledol o'u tystysgrif, fel nodir uchod, yn ogystal â gwirio'u dogfennau adnabod personol (ee trwydded yrru). Anogwch unrhyw un sy'n cael gwiriad newydd i danysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru.

3. GWIRIADAU NEWYDD

Rhai pethau i'w cadw mewn cof wrth ymgeisio am wiriadau newydd gan y DBS:

- Bydd gwiriadau'n haws ac yn gynt pan fo gan yr ymgeisydd drwydded yrru gyfredol a phasbort y DU a phan gyflwynir y cais trwy borth ar-lein
- Defnyddiwch rai o'r darparwyr llai (**nid** y rhai mawr cenedlaethol) sydd, o bosibl, yn llai prysur ar hyn o bryd (mae'r elfen 'bersonol' yn chwarae tipyn llai o ran yn y broses erbyn hyn)
- Nid yw amserlen yr heddlu o ran dychwelyd eu gwybodaeth wedi newid a gallai hyn ddioddef pe byddent yn colli'r capasiti i ymgymryd â'r gwaith hwn

4. GWIRIADAU LLWYBR CARLAM AM DDIM

Mewn ymateb i'r coronafeirws (COVID-19), mae'r Swyddfa Gartref a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi rhoi trefniadau dros dro yn eu lle, er mwyn darparu gwiriadau DBS safonol a manylach a gwiriadau argyfwng llwybr carlam o Restrau Gwahardd oedolion a phlant, yn rhad ac am ddim. Mae hyn at bwrpas recriwtio argyfwng ac ôl-lenwi swyddi gwag yn ystod y pandemig, sydd hefyd yn gofyn am gofrestru dros dro priodol ar gyfer y rôl. Ni fydd y gwiriadau hyn yn gymwys i'w tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru.

Y rolau sy'n gymwys i ymgeisio ar gyfer gwiriadau am ddim a gwiriadau rhestr wahardd llwybr carlam yw: nyrs, cydymaith nyrsio a bydwraig, gweithiwr iechyd cofrestredig, gweithiwr cymdeithasol cofrestredig, fferyllydd neu dechnegydd fferyllfa.

Cyfeirnod: www.gov.uk/government/publications/covid-19-free-of-charge-dbs-applications-and-fast-track-barred-list-check-service

5. GWIRIAD DBS OEDOLION YN GYNTAF

Gweithio gydag oedolion agored i niwed mewn gweithgarwch rheoledig **yn unig**.

Mae DBS Oedolion yn Gyntaf yn wasanaeth sydd ar gael i fudiadau a all ofyn am wiriad o restr wahardd oedolion y DBS (cost o £6). Gan ddibynnu ar y canlyniad, gellir caniatáu i unigolyn gychwyn gweithio gydag oedolion agored i niwed, o dan oruchwyliaeth, cyn i dystysgrif DBS gael ei hawdurdodi.

Ceir mwy o wybodaeth ynglŷn â gwiriadau Oedolion yn Gyntaf yma.

Mae meini prawf llym ynghlwm wrth geisiadau Oedolion yn Gyntaf:

- rhaid i'r swydd ofyn am wiriad record droseddol yn ôl y gyfraith
- rhaid i'r swydd fod yn gymwys ar gyfer mynediad i restr wahardd oedolion y DBS
- rhaid bod y mudiad wedi gwneud cais am wiriad o restr wahardd oedolion y DBS ar ffurflen gais y DBS

Bydd ymateb y DBS i gais am wiriad Oedolion yn Gyntaf yn cynnwys un o'r atebion canlynol a bydd yn nodi'n glir ei fod ond yn ffurfio rhan gynta'r broses o wirio cofnod troseddol ac y bydd gwybodaeth bellach yn dilyn:

- opsiwn 1: 'Rhaid i'r Corff Cofrestredig aros am y dystysgrif DBS'
- opsiwn 2: 'nid oes cofnod yn bodoli ar gyfer y person hwn ar y rhestr wahardd oedolion gyfredol'

Os yw'r gwiriad Oedolion yn Gyntaf yn dynodi bod angen i'r Corff Cofrestredig aros am dystysgrif DBS, gallai'r manylion a ddarparwyd fod wedi cyfateb â manylion ar restr wahardd oedolion y DBS. Fodd bynnag, byddai angen ymchwilio pellach er mwyn cadarnhau hyn ac fe ddylech

aros i dderbyn y dystysgrif. Fel arall, bydd y gwiriad yn nodi nad oes cofnod yn cyfateb i'r unigolyn ar y rhestr wahardd oedolion.

6. AR GYFER POB RÔL SY'N GOFYN AM WIRIAD DBS

Cofiwch y gallwch:

- Ddefnyddio cyfleusterau fideo er mwyn gwirio ID a gofyn am ddelweddau ID wedi'u sganio yn ystod y broses ymgeisio
- Defnyddio'r Gwasanaeth Diweddaru ar gyfer trosglwyddo gwiriadau yn ffurfiol: os yw'r rôl o fewn yr un gweithlu (plant neu oedolion, neu'r ddau) ac os yw'r gwiriad ar yr un lefel (manylach gyda/ heb wiriad rhestr gwahardd). Edrychwch ar y dystysgrif a'r ID gan ddefnyddio cyfleusterau fideo
- Defnyddiwch dystysgrif ddiweddar (yn ddelfrydol un sydd wedi'i argraffu yn y 6 mis diwethaf, bydd y dyddiad hwn ar y dystysgrif) ar gyfer trosglwyddo anffurfiol: os yw'r rôl o fewn yr un gweithlu (plant neu oedolion, neu'r ddau) ac os yw'r gwiriad ar yr un lefel (manylach gyda/ heb wiriad rhestr wahardd) a gofynnwch am yrfa yn ystod y cyfnod hwn. Edrychwch ar y dystysgrif a'r ID gan ddefnyddio cyfleusterau fideo
- I ymholi ynglŷn â gwiriad sylfaenol (gellir gofyn am un ar gyfer pob rôl, yn addas ar gyfer rolau heb unrhyw gyswllt gwirioneddol, cost o £23 ar-lein), defnyddiwch ffurflen hunan-ddatgeliad i ofyn ynglŷn ag euogfarnau **heb eu disbyddu** yn unig

Cyfeirnod: www.gov.uk/government/news/covid-19-changes-to-dbs-id-checking-guidelines

7. DOLENNI DEFNYDDIOL

- Canllawiau Covid-19 i'r sector elusennol
- Canllawiau gwiriadau DBS i gyflogwyr
- Taflenni canllaw DBS (gan gynnwys copïau Cymraeg)

8. YMWADIAD

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor cyfreithiol neu broffesiynol ac nid yw CGGC yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.